JOHNS, DAVID (1796 - 1843), cenhadwr ym Madagascar am yn agos i 17 mlynedd dros Gymdeithas Genhadol Llundain

Enw: David Johns
Dyddiad geni: 1796
Dyddiad marw: 1843
Priod: Mary Johns (née Thomas)
Rhiant: John Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cenhadwr ym Madagascar am yn agos i 17 mlynedd dros Gymdeithas Genhadol Llundain
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Evan Lewis Evans

Mab John Jones, Llain, Llanina, Sir Aberteifi. Yr oedd yn aelod yn eglwys yr Annibynwyr yn Penrhiwgaled. Bu dan addysg yn academi Neuaddlwyd, yn seminari'r Drenewydd, ac yn Gosport, ac ordeiniwyd ef i'r maes cenhadol ar 16 Chwefror 1826. Priodod Mary, ferch William Thomas, 1749 - 1809, gweinidog yr Annibynwyr yn y Bala. Aeth â gwasg argraffu a pheiriant nyddu gydag ef i Madagascar, a bu'n cydweithio â David Griffiths a David Jones i sefydlu dros 25 o ysgolion ag ynddynt dros 2,000 o ddisgyblion. Gan weithio yn ddibaid yn erbyn erlid chwerw bu'n helpu gyda chyfieithu'r Beibl; cyfieithodd *Taith y Pererin* i iaith y Malagasi, paratôdd eiriadur Malagasi-Saesneg, a golygodd nifer o lyfrau; gyda Freeman ysgrifennodd *A Narrative of the Persecutions of the Christians in Madagascar*, gwaith y cyhoeddwyd ei gnewyllyn yn Gymraeg hefyd.

Dioddefodd galedi enbyd pan oeddid yn difodi Cristnogaeth yn yr ynys. Wedi iddo orfod gadael yr ynys bu'n cynorthwyo'r Cristnogion a erlidid ac yn cadw mewn cysylltiad â hwynt. Wedi iddo gael cyfnod byr o egwyl yn 1839 dychwelodd i'r ynys, lle y bu farw 6 Awst 1843.

Awdur

Y Parchedig Ddr Evan Lewis Evans , (1898 - 1978)

Ffynonellau

A Register of Missionaries, Deputations etc., from 1796 to 1885 (1886), 1923

E. Lewis Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol, sef hanes ei Chychwyn* (1945)

G. Penar Griffith, *Cenhadon Cymreig*

Darllen Pellach

John Austin Jenkins, *Hanes cenhadon cyntaf Madagasgar* (Llundain 1894)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 49302317

Wikidata: Q18670980

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Evans, E. L., (1953). JOHNS, DAVID (1796 - 1843), cenhadwr ym Madagascar am yn agos i 17 mlynedd dros Gymdeithas Genhadol Llundain. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JOHN-DAV-1796

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government